BRO MORGANNWG

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD

2021-2036

# ADRODDIAD YMGYSYLLTU CYN ADNEUO

## *CYFROL 2 – YMGYSYLLTU AR SAFLEOEDD ALLWEDDOL*

Rhagfyr 2025



PAPUR CEFNDIR – BP1

RLDP CDLN

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

@CBroMorgannwg CyngorBroMorgannwg LDP@valeofglamorgan.gov.uk 01446 704681 www.bromorgannwg.gov.uk

This document is available in English/ Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

Cynnwys

**1. Cyflwyniad** ........ 1

**2. Pam Ymgysylltu Pellach?** ........ 2

**3. Dulliau Ymgysylltu** ........ 4

Atodiad 1: Tir i'r Gogledd o Cardiff Road - Datganiad Ymgysylltiad Cymunedol Dinas Powys y Cynllun Adneuo

Atodiad 2: Tir i'r Gorllewin o Sian Tathan - Datganiad Cynnwys Cymunedau – Ymgysylltu ar y Strategaeth a Ffefrir

Atodiad 3: Tir yn Readers Way, Rhws - Adroddiad Ymgynghori'r Ymarferiad Uwch Gynllunio

Atodiad 4: Tir yn Church Farm, Sain Tathan - Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Cyhoeddus

Atodiad 5: Adroddiad Cabinet Bro Morgannwg 6 Tachwedd 2025 - Adroddiad Ymgynghori ar Dwf Tai yn y Bari

## 1. Cyflwyniad

1.1 Pwrpas y Papur hwn yw crynhoi'r gwaith ymgysylltu sydd wedi digwydd ers yr ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir ar y safleoedd sy'n cael eu clustnodi fel Safleoedd Allweddol yn y CDLIN.

1.2 Gwnaed ymrwymiad yn Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol y CDLIN i hyrwyddwyr safleoedd dyraniadau tai allweddol i ymgymryd â gwaith ymgysylltu anffurfiol anstatudol ar greu lleoedd gyda chymunedau lleol i lywio gwaith uwchgynllunio'r safleoedd hyn. Byddai'r sesiynau hyn yn cael eu cydlynu gan y Cyngor, a fyddai hefyd yn mynychu'r sesiynau i gynnig gwybodaeth am y broses baratoi CDLIN ehangach.

1.3 Pwrpas y sesiynau creu lleoedd hyn oedd cael mewnwelediad lleol i'r safleoedd a deall blaenoriaethau a phryderon trigolion lleol. Gyda'r wybodaeth hon, rhagwelwyd y byddai hyrwyddwyr safle yn gallu ymateb yn rhagweithiol i faterion allweddol.

1.4 Mae creu lleoedd, fel yr eglurir yn Siarter Creu Lleoedd Cymru[1], yn golygu cydweithio ar draws sectorau a disgyblaethau i ystyried datblygu lleoedd unigryw a bywiog yn y dyfodol mewn modd cynhwysfawr. Rhan allweddol o Greu Lleoedd yw cynnwys y gymuned fel y gellir deall cyd-destun, cymeriad, treftadaeth a diwylliant y safle.

1.5 Ar gyfer pedwar o'r pum safle allweddol a glustnodwyd fel rhan o'r Strategaeth a Ffefrir, cynhaliwyd sesiynau creu lleoedd yn ystod Hydref 2024:

- Sain Tathan (sesiwn ar y cyd ar gyfer Church Farm ac i'r Gorllewin o Sain Tathan) – 16 Hydref 2024 yng Nghanolfan Gymunedol Paul Lewis Sain Tathan
- Readers Way, Rhws – 23 Hydref 2024 yng Nghanolfan Gymunedol Celtic Way
- I'r gogledd o Ddinas Powys – 18 Hydref 2024 - Canolfan Gymunedol Murch

1.6 Cynhaliwyd y sesiynau gan yr hyrwyddwyr a chyhoeddi gwybodaeth ar y safleoedd ar-lein, gan ganiatáu i sylwadau gael eu derbyn yn y pythefnos yn dilyn y digwyddiadau. Ar ôl y cyfnod ymgysylltu o bythefnos, paratodd yr hyrwyddwyr safle adroddiadau adborth, sydd i'w gweld yn yr Atodiadau.

1.7 Ni chynhaliwyd sesiwn creu lleoedd ar y safle allweddol a gynigiwyd yn y Strategaeth a Ffefrir i'r Gogledd-ddwyrain o'r Barri oherwydd pryderon a ellid cyflawni'r safle oherwydd materion ynghlwm â pherchnogaeth tir.

[1] Comisiwn Dylunio Cymru, 20204. *Siarter Creu Lleoedd.* Ar-lein. Ar gael yn: [Siarter Creu Lleoedd - Comisiwn Dylunio Cymru] [Cyrchwyd: 06/12/24].

1.8 Ym mis Mai 2025, cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet yn cynghori nad oedd bwriadwyd symud ymlaen gyda safle Gogledd-ddwyrain y Barri i'r Cynllun Adneuo. Cymeradwyodd y Cabinet y dylid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar dri safle amgen yn y Barri, gan gynnwys safle allweddol yng Ngogledd-orllewin y Barri ar gyfer 376 o anheddau, a dau safle llai. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn rhwng 16 Mehefin a 14 Gorffennaf 2025 ac roedd yn cynnwys digwyddiad creu lleoedd safle-benodol a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2025 yng Nghlwb Bowlio Millwood. Mynychwyd y sesiwn hon gan y Cyngor a'r hyrwyddwyr safle ar gyfer Tir yng Ngogledd-orllewin y Barri ynghyd â'u harbenigwyr technegol.

1.9 Cynhaliwyd y digwyddiad ymgynghori ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ehangach ar Dwf Tai yn y Barri a chyflwynwyd adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn i'r Cabinet ar 6 Tachwedd 2025. Ceir manylion y sylwadau a wnaed yn yr adroddiad i'r Cabinet yn Atodiad 5.

## 2. Pam Ymgysylltu Pellach?

2.1 Yn sail i'r cyfiawnhad dros y sesiynau hyn oedd statws Cyngor Bro Morgannwg fel llofnodwr i Siarter Creu Lleoedd Cymru. Mae'r Siarter yn ymrwymo'r Cyngor i'r canlynol:

*Mae'r gymuned leol yn cael ei chynnwys wrth ddatblygu cynigion. Mae anghenion, dyheadau, iechyd a lles pawb yn cael eu hystyried o'r cychwyn cyntaf. Mae cynigion yn cael eu llunio i helpu i ddiwallu'r anghenion hyn yn ogystal â chreu, integreiddio, amddiffyn a/neu wella ymdeimlad o gymuned a hyrwyddo cydraddoldeb.*

2.2 Ystyrir bod y sesiynau ymgysylltu hyn yn helpu i gyflawni'r ymrwymiad Siarter hwn. Ynghyd â ffrydiau gwaith eraill, megis Asesiad Effaith ar Iechyd, Asesiad Cynaliadwyedd Integredig y CDLlN, ac ymgysylltu â'r Fforwm Ymgynghorol ar Gydraddoldeb, y BGC, a'r Fforwm 50+, ystyrir bod y CDLlN yn ymateb yn gryf i'r ymrwymiad hwn.

2.3 Bwriad y sesiynau ymgysylltu hyn yw mynd y tu hwnt i'r isafswm disgwyliadau statudol ar gyfer ymgynghori a cheisio ymgysylltu â phobl leol er mwyn gwella eu cyfranogiad, sicrhau eu bod yn cyfrannu at ddatblygu cynigion, a sicrhau cydsyniad lleol lle bo hynny'n bosibl. Gwahaniaeth pwysig rhwng y broses hon a'r broses ymgynghori statudol ar y CDlIN yw bod y sesiynau hyn yn rhoi cyfle i'r gymuned leol lywio sut y datblyga ac yr esblyga'r datblygiadau. Roedd presenoldeb yr hyrwyddwyr safle a'u tîm yn caniatáu iddynt ystyried a diweddaru'r cynigion datblygu cyn y Cynllun Adneuo.

2.4 Mantais cynnal hyn cyn dyrannu safleoedd, yn ogystal â chyn cyflwyno cais cynllunio, yw y bydd cysyniadau dylunio ar gyfer safle ar gam llawer cynharach cyn y dyrannu, tra hefyd yn rhoi cyfle i swyddogion priffyrdd, draeniau, addysg, tai, bioamrywiaeth a rheoli datblygu y Cyngor gael mewnbwn i uwchgynllunio'r safle ar gamau cynharaf y broses o lunio cynlluniau.

2.5 Roedd y sesiynau creu lleoedd hyn hefyd yn cynnig mecanwaith ar gyfer "blaen lwytho" y broses o lunio cynlluniau fel yr argymhellir gan Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru (Argraffiad 3 2020). Ystyrir bod y sesiynau ymgysylltu ychwanegol hyn yn darparu tystiolaeth werthfawr i'r arolygydd penodedig adeg archwilio'r CDllN o ymrwymiad datblygwyr a chyflawniadwyedd safleoedd ac o bosibl fyrhau'r amserlenni ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio.

## 3. Dulliau Ymgysylltu

3.1 Fel y nodwyd, hwyluswyd yr ymgysylltu gan yr hyrwyddwyr safle gyda swyddogion y Cyngor yn bresennol i ddarparu gwybodaeth am y broses CDLIN ehangach. Cynhaliwyd sesiynau o fewn yr aneddiadau lle cynigiwyd pob safle allweddol, ac mewn lleoliadau yn agos iawn at y safleoedd. Darparwyd byrddau gwybodaeth gan yr hyrwyddwyr safle yn dangos yr uwchgynllun cychwynnol ar gyfer y safleoedd yn ogystal â gwybodaeth am faterion megis y mynediad arfaethedig at briffyrdd, manylion peirianneg, ardaloedd o fannau agored a draenio trefol cynaliadwy, yn ogystal â chysylltiadau ag ardaloedd adeiledig cyfagos presennol.

3.2 Defnyddiwyd taflenni mewngofnodi mewn sesiynau ymgysylltu i gofnodi niferoedd mynychwyr, a bu’r Cyngor hefyd yn darparu gwybodaeth am sut y gallai'r cyhoedd gofrestru i gael gwybod am y broses CDLIN. Gellir dod o hyd i fanylion am y deunyddiau ymgysylltu a ddefnyddir gan hyrwyddwyr safle yn eu Adroddiadau Ymgysylltu yn yr Atodiadau.

3.4 Cynorthwyodd y Cyngor drwy hysbysebu’r digwyddiadau ymgysylltu. Wrth wneud hyn, defnyddiodd y Cyngor ystod o ddulliau gan gynnwys ysgrifennu at bob person a oedd wedi cofrestru diddordeb yn y CDLIN ac wedi ymateb i'r Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir, drwy bostio ar gyfryngau cymdeithasol, ac ysgrifennu am y sesiynau ar wefan y Cyngor. Roedd gwefan y Cyngor hefyd yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer y sesiynau ymgysylltu, gan gyflwyno'r ymarferiad, nodi'r dyddiadau pan gynhelid y sesiynau a darparu dolenni i'r tudalennau gwe perthnasol.

3.5 Mae'r adroddiadau ymgysylltu a geir yn yr Atodiadau yn mynd i fanylion ar yr ymgysylltu a ddigwyddodd. Maent hefyd yn cynnwys tabl sy'n nodi'r ymatebion a ddaeth i law a sut mae'r datblygwyr wedi ymgorffori’r rhain.

RLDP CDLN

**Cyngor Bro Morgannwg**
Adfywio a Chynllunio
Swyddfa'r Doc
Dociau'r Barri
Y Barri CF63 4RT

LDP@valeofglamorgan.gov.uk
www.bromorgannwg.gov.uk

